

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD /MEETING 4/4/2016**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs Catherine Lloyd, Is-gadeirydd Mr R G Parry, Mrs E Jones, Ms M Williams, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams.

PRESENT: Chairman Mrs Catherine Lloyd, Vice Chairman Mr R G Parry, Mrs E Jones, Ms M Williams, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams.

YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Mr B Veevers a PCSO Marcia Hughes.

APOLOGIES: Apologies for their absence were received from Mr B Veevers and PCSO Marcia Hughes.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7 Mawrth 2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

MINUTES: Minutes of the meeting held on the 7 March 2016 were accepted as a true record of the meeting.

MATERION YN CODI:

1. Cloc y pentref. Llythyr oddi wrth y Mri J B Joyce yn cadarnhau eu hymweliad i drin y cloc ar y 5 Ebrill ac yn rhoi gwybod eu bod am wneud gwaith cynnal a chadw ar y cloc yn rhad ac am ddim am eleni. Gwybodaeth hefyd eu bod yn fodlon rhoi gostyngiad o 10% ym mhreis cynnal a chadw'r cloc petai'r Cyngor yn derbyn contract 3 blynedd. Penderfynwyd derbyn contract 3 blynedd, i gychwyn yn 2017- y pris fyddai £632 a TAW.

MATTERS ARISING:

1. Village clock. Letter from Messrs J B Joyce confirming their visit to repair the clock on the 5 April and informing the Council that the annual service would be carried out at the same time, free of charge. They also informed the Council that they were prepared to offer a 10% discount to the price of the annual service if the Council would take out a 3 year contract. It was decided to accept a 3 year contract commencing in 2017 0 cost would be £632 plus VAT.

2. Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Cafwyd copi o'r holiadur ar gyfer yr ymgynghoriad ar y safleoedd ac a lenwyd gan Mrs Edna Jones ar ran y Cyngor Cymuned a chadarnhawyd bod copi wedi'i roi i Gyngor Cymuned Bodffordd.. Dywedodd y Cynghorydd R G Parry nad oedd y safle ar Barc Diwydiannol Mona yn cael ei ystyried bellach, ac y byddai cyfarfod cyhoeddus i drafod safleoedd eraill yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

2. Sites for Gypsies and Travellers. A copy of the questionnaire attached to the consultation on the sites and completed by Mrs Edna Jones on behalf of the Community Council was received, and it was confirmed that a copy had been given to Bodffordd Community Council. Councillor R G Parry stated that the site at the Mona Industrial Estate was no longer being considered and that a public meeting to discuss alternative sites was to be held in the near future.

3. Is Grŵp o'r Grŵp Rhanddeiliad Cynghorau Tref a Chymuned (Ardal Canolbarth Môn). Mrs Edna Jones a'r Clerc wedi mynychu'r cyfarfod a rhoddodd Mrs Jones adroddiad ar

3. Sub-Group of the Town and Community Councils Stakeholder Group (Canolbarth Môn). Mrs E Jones and the Clerk had attended the meeting, and Mrs Jones gave the Council

gynnwys y cyfarfod i'r Cyngor.

4. Lôn yr Eglwys. Gwaith wedi'i ddechrau ond heb ei orffen hyd yma.

5. Lôn Gerrig. Y Cynghorydd R G Parry i ddod a chyflwr gwael Lôn Gerrig i sylw'r Cyngor Sir.

GOHEBIAETH:

1. Clwb Ieuentid Gwalchmai. Cais am gyfraniad tuag at weithgareddau ychwanegol yn ystod wythnosau caeedig y clwb. Penderfynwyd talu am fws i gludo'r ieuentid i Haven ym Mhwillheli - cost y bws fydd £280. Gofynnwyd i Mrs Stephanie Roberts sicrhau fod anfoneb y cwmni bws yn cael ei hanfon at y Clerc. Bu i Mrs Stephanie Roberts **ddatgan diddordeb** yn yr eitem hon gan mai hi yw arweinydd y Clwb Ieuentid. Llenwyd y ffurflen briodol ar ddiwedd y cyfarfod. Derbyniwyd gwahoddiad hefyd i ymweld â'r clwb ar noson agored a gynhelir ar y 13 Ebrill.

2. Un Llais Cymru.

(a) Cyfarfod Pwyllgor Ardal 7/4/2016. Y Cadeirydd yn methu bod yn bresennol. Y Clerc i anfon ymddiheuriad.

(b) Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol. Cod Ymddygiad

Enghreifftiol(Cymru)(Diwygio) 2016. Mabwysiadwyd yr Uchod gan y Cyngor..

(c) Adroddiad y Pwyllgor Cyllid.

Trafod yr ymgynghorid ar y Bil Ombwdsom Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft. Er gwybodaeth.

(d) Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6. Er gwybodaeth.

(e) Lansio'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. Er gwybodaeth.

(f) Datganiad Cyflwyno CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn. Er gwybodaeth.

(f) Bwletin Cyfoeth Naturiol. Rhifyn 5, Er gwybodaeth.

(g) Adroddiad Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliad. Er gwybodaeth.

a report on the content of the meeting..

4. Lôn yr Eglwys. Work had commenced but to date, not completed.

5. Lôn Gerrig. Councillor R G Parry to bring the condition of this road to the attention of the County Council.

CORRESPONDENCE:

1. Gwalchmai Youth Club.

Application for a donation towards extra activities to be held during the period when the club will be closed. It was decided to pay for the transport that would take the members to Haven in Pwllheli – cost of the bus would be £280. Mrs Stephanie Roberts was asked to ensure that the invoice for the bus be forwarded directly to the Clerc. Mrs Stephenie Roberts made a **declaration of interest** in this item as she is the leader of the Youth Club. The appropriate form was completed at the end of the meeting. An invitation was received to attend an open evening at the club on 13 April.

2. One Voice Wales.

(a) Anglesey Area Committee 7/4/2016. Chairman unable to attend. Clerc to send apologies.

(b) LG Ethical Framework. Model Code of Conduct (Wales) (Amendment) 2016. The above was adopted by the Council.

(c) Finance Committee Report. Consideration of the consultation on the Draft Public Services Ombudsman (Wales) Bill. For information.

(d) Planning Policy Wales Chapter 6. For information.

(e) Launch of Public Health Outcomes Framework for Wales. For information.

(f) Submission Notice Anglesey and Gwynedd JLDP. For information.

(f) Natural Resources Wales Bulletin 5. For information.

(g) Stakeholder Reference Group Report. For information.

3. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a) Rhybudd Derbyn Cais cynllunio llawn ar gyfer codi modurdy yn Tŷ Gwyn Gwalchmai. **Datganwyd diddordeb** yn yr eitem hon gan Mrs Sharon Jones gan mai hi yw perchen y tir dan sylw. Llenwyd y ffurflen briodol ar ddiwedd y cyfarfod.

(b) Gweithdy Ysgogi Newid Cyflymu Cymru i Fusnesau 19 Ebrill. Er gwybodaeth.

(c) Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned Ynys Môn 28 Ebrill. Mrs Edna Jones a'r Clerc i fynychu'r fforwm.

ARIANNOL:

1. Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017. Penderfynwyd anfon cyfraniad Cyngor Cymuned Trewalchmai o £1000 tuag at yr Eisteddfod i Bwyllgor Apêl Ardal Bryngwran, Engedi a Gwalchmai.

2. J D Roberts, Archwiliwr Mewnol. Anfoneb am £65.00 am archwilio cyfrifon 2014/15 y Cyngor. Penderfynwyd fod y Clerc i dalu'r anfoneb.

UNRHYW FATER ARALL:

1. Cae Peldroed. Prydles y cae peldroed wedi dod i ben. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn yn gofyn am adnewyddu'r brydles am gyfnod o 25 blwyddyn.

DATGANIAD DIDDORDEB.

Cafwyd dau ddatganiad o ddiddordeb fel y nodwyd yn eitem 1(a) ac eitem 3(a).

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf, a fydd yn gyfarfod cyffredinol blynyddol, nos Lun 9 Mai 2016 am 7pm.

3. Isle of Anglesey County Council.

(a) Notice of Receipt of full planning application for the erection of a garage at Ty Gwyn, Gwalchmai. Mrs Sharon Jones made a **Declaration of Interest** in this item as she is the owner of the land in question. The appropriate form was completed at the end of the meeting.

(b) Workshop re Superfast Business Wales Inspiring Action 19 April. For information.

(c) Anglesey Town and Community Councils Liaison Forum 28 April. Mrs Edna Jones and the Clerk to attend the forum.

FINANCIAL:

1. National Eisteddfod of Wales 2017. It was decided to forward the contribution of £1000 from Trewalchmai Community Council towards the eisteddfod to the Appeal Committee for Bryngwran, Engedi and Gwalchmai.

2. J D Roberts, Internal Auditor. Invoice for £65.00 for auditing the Council's accounts 2014/15. It was decided that the Clerk should pay the invoice.

ANY OTHER MATTER:

1. Football Field. The lease on the football field was up. It was decided to ask the Clerk to contact Anglesey County Council asking for the lease to be renewed for a period of 25 years.

DECLARATION OF INTEREST:

Two declarations of interest were made as recorded in item 1(a) and item 3(a).

NEXT MEETING: The next meeting, which will be the annual general meeting, will be held on Monday 9 May 2016 at 7pm.